# Paris – Prifddinas Ffrainc



Paris ydy prifddinas Ffrainc.
Edrychwch ar y map i weld ble mae Paris.




Mae Paris yn ddinas gyffrous, hardd. Mae llawer o adeiladau diddorol yma fel Tŵr Eiffel a Notre Dame. (Ydych chi wedi gweld y ffilm, *The Hunchback of Notre Dame?*).

Mae adeiladau modern yma hefyd, fel Canolfan Pompidou - adeilad lliwgar a chyffrous.





Mae llawer o bethau i wneud ym Mharis, er enghraifft, cerdded a chwarae yn y parciau, siopa yn y siopau smart, mynd ar drip ar afon Seine, mynd i gêm rygbi yn stadiwm, Stad de France ac, wrth gwrs, mae Eurodisney tu allan i Baris. Mae plant yn mwynhau mynd i Eurodisney i weld y cymeriadau lliwgar ac i gael hwyl yn y ffair.



Mae Paris yn bell o lan y môr ond yn yr haf maen nhw'n gwneud traeth ar lan afon Seine. Mae'r bobl yn hapus iawn achos maen nhw'n mwynhau torheulo a chwarae yn y tywod.





| | | | |
|---|---|---|---|
| adeilad, adeiladau | building, buildings | yr haf | summer |
| er enghraifft | for example | traeth | beach |
| cymeriad, cymeriadau | character, characters | torheulo | to sunbathe |
| yn bell o | far from | | |